Cyf. LIV | Chwefror 1954 | Rhif 2

# YR YMOFYNNYDD

*Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru*

CYNNWYS

Y Ddarlith Radio, 1954

Dyddiadur
Gwilym Marles

Diwinyddiaeth y
Testament Newydd

Priodasau

Marwgofion

Newyddion yr Enwad



# YR YMOFYNNYDD

Pris 6c h. y mis; drwy y Post, 7s. oc. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

**Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—**

**Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Penrallt, 2, Tudor Terrace, Aberdâr.**

**Nodion a Marwgofion i gyrraedd y Golygydd erbyn y 15fed o'r mis**

*Pwyllgor Ymgynghori*—Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D.; Parchn. S. E. Bowen; E. G. Evans, B.A.; J. Islan Jones, M.A.; Simon Jones, B.A.; A. J. Martin, B.A.; Islwyn Pritchard, B.A.; J. Marles Thomas, M.A.; Lewis Williams; T. O. Williams, M.A.; Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., a Mr. D. Jones.

**Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr—**

**J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd", Llandysul**

**A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha).**
Selected and edited by Mortimer Rowe, B.A., D.D. The best of the Bible and Apocrypha, in attractive and readable form. 9/6, by post 10/3; leather with gilt edges, 18/-, by post 18/9.

**SHALL WE FOLLOW KARL BARTH.**
By Sidney Spencer, B.A. 1/6, by post 1/8.

**THE STORY AND SIGNIFICANCE OF THE UNITARIAN MOVEMENT.**
By W. G. Tarrant, B.A. 1/6, by post 1/8.

**UNITARIAN FAITH IN UNITARIAN HYMNS.**
1/-, by post 1/2.

**WE BELIEVE IN series.**
Edited by G. Stephens Spinks, M.A., Ph.D., the set of six titles 1/6 by post 1/8.

Send for catalogue and lists of other series—

**THE LINDSEY PRESS,**
**14, Gordon Square, London, W.C.1.**

# Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

*Golygyddd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.*

Cyfrol LIV. CHWEFROR 1954 Rhif 2

## Y Ddarlith Radio, 1954

*(A ddarlledwyd gan y Parchedig Athro J. D. Vernon Lewis, Coleg Coffa, Aberhonddu).*

"Diwnyddiaeth Heddiw a Phregethu" yw testun y ddarlith uchod eleni, a'r Parchedig Athro D. J. Vernon Lewis a'i traddododd. I gael y ddarlith i ofod tri chwarter awr gorfu i'r darlithydd lefaru'n gyflym—yn rhy gyflym i rai ohonom. Er hynny, hyfryd oedd clywed llais clir a chynaniad eglur yr Athro, a theimlo y gwrandawem ar un sy'n hyddysg yn y maes hwn ac yn feistr ar ei bwnc. Ond pleser ychwanegol yw cael y ddarlith wedi ei chyhoeddi'n llyfryn destlus mewn print bras ac ar bapur da, fel y gallwn yn hamddenol yng ngeiriau'r *Llyfr Gweddi Cyffredin*, "ei darllain, ei chwilio, a'i dysgu, ac i'n mewn ei mwynhâu". Gan na chaed yng Nghymru hyd yn hyn, ym marn yr Athro, gyfraniad arbennig a gwreiddiol mewn diwinyddiaeth, try i'r cyfandir (yn ei eiriau ef) "am y prif ffrydiau a'r dylanwadau a effeithiodd fwyaf yn ddiwinyddol ar feddwl ein cyfnod", sef at weithiau'r tri doethuriaid adnabyddus, Barth, Brunner a Bultmann. Cymharol fyr yw'r cyfeiriadau at y ddau gyntaf, ond caiff yr olaf ran helaethaf y ddarlith fel mai is-deitl briodol iddi fyddai : ' Sialens Bultmann i Bregethu.' Y mae crynodeb yr Athro o ddull dehongliadol a heriadol Bultmann yn olau a chynhwysfawr odiaeth. Dengys inni'r cwestiynau a ofynnir ganddo, a'i gais i fynd tu ôl i ffurfiau meddwl yr Eglwys Gyntefig at y digyfnewid a'r arhosol, a'i fodd o ddefnyddio'r athroniaeth newydd Dirfodaeth i fynegi hyn. Hwyrach y dylem gofio i'r cwestiynau hyn gael eu trafod mewn dau lyfr chwarter canrif a mwy yn ôl, sef, *Religion and its New Testament Expression*, gan H. Bulcock, a *The Gospel in the Early Church*, gan y Dr. James Mackinnon. Ceir ganddynt ymdriniaeth gytbwys a chadarnhaol yn arwain at yr un profiad sylfaenol ag a eilw Bultmann yn ' ddigwyddiad achubol terfynol,' ond bod eu dull rywfodd yn fwy cyfeillgar. Parheir i wahaniaethu ynghylch ystyr yr Atgyfodiad.

Y mae dehongliad Bultmann yn anfoddhaol i lawer, ond nid am yr un rhesymau. Beth tybed yw'r wreichionen fywiol yn ' ffydd yr Atgyfodiad ' ? Onid deffroad enaid i fodolaeth newydd trwy *impact* ysbryd Iesu ?

Ym mharagraffau olaf y ddarlith ceir sylwadau pwysfawr. Credaf y dylem fel Cristionogion Rhyddfrydig groesawu'r traethiad hwn. Y mae agwedd yr Athro, mi gredaf, ar y cyfan yn eangfrydig, goddefgar, ac ymchwilgar. Eddyf na allodd "ond codi ewr y llen, megis ar ansawdd ac arwyddocâd y pwnc dyrys a chymhleth a godwyd gan Bultmann"—golygiadau a gyfrifir yn negyddol a chwyldroadol. Diolch iddo na phetrusodd wneud hynny, ond yn hytrach credu mai mantais i bregethu yw wynebu'r cwestiynnau hyn ac nid eu hanwybyddu. Hyfrydwch i Gymro oedd clywed ysgolhaig fel yr Athro Vernon Lewis yn dweud am y Gymraeg, ei bod "yn iaith sydd mewn cytgord agosach ag eiddo'r Beibl na'r Saesneg".

J.L.W.

[Gellir cael copi o'r Ddarlith Radio oddi wrth y B.B.C., Park Place, Caerdydd ; pris swllt. Cyhoeddwyd yn y *Radio Times* nad oedd dim wedi'i gyhoeddi yn Gymraeg ar Bultmann cyn cyhoeddi'r ddarlith hon, ond fe wyr darllenwyr Yr Ymofynnydd, a fu'n dilyn ysgrifau trwyadl Mr. J. L. Williams, fod hynny yn anghywir. Llongyfarchiadau i Mr. Williams am fod yn gyntaf ar y maes—ac wrth gwrs clap fach ar gefn Yr Ymofynnydd hefyd !—*Gol.*].

## Y STICIL.

(*Buddugol yn Eisteddfod Pantydefaid, Rhagfyr* 1952).

Yn drwstan camwn drosti,—â'i grisiau'n
Wledig res o feini ;
Rhwyddha hon y ffordd inni
A hen hawl gwerin yw hi.

*Llwyndafydd.* Fred Williams.

## Y CORONI.

(*Buddugol yn Llwynrhydowen, Mawrth* 1953).

Adduned Teyrn i Dduw'n Tad—a rhoi' air
I werin ei famwlad :
Addef ar lw ddeddfau'r wlad—
I'n rheoli mae'r alwad.

"Gwerinwr" (?)

# Dyddiadur Gwilym Marles

Tachwedd—Rhagfyr 1850.

3. Sab. 5.55. darll. a myf.—9. G. 10 . . . ½ dydd i'r cwrdd gweddi yn Penrhiwlwyd a Mallen wedi marw er bore echdoe—adref i'r 'Seiet'. . . . Y "Diw." a'r Ty. i law nawn heno—mae eisio chwilio mwy i hen gredoau.

5. Maw. 6.10 . . . lofftwyd y siop heddyw . . . symud y box llyfre etc. . . . gwyniau yn fy mreichiau heno . . .

6 Mer. 5. Ymolchi a darll.—6, wrth fy nghel o hynny—9 heno ond awr rol boreufwyd—gennyf at ddarllen a myfyrio. . . . Gwraig Hafod Cothi yma heddyw—cas yw gweniaeth. . . .

7 Iau. Codi 5 . . . Modryb tua Ffactory Alltwalis . . . (*ef oedd yn gwneud y bwyd ar brydiau felly.*—Gol.).

8 Gwe. 5½ . . . ymolchi—yna David a fi'n corddi—8 (!) . . .

9 Sad. 5 . . . Ew. a Mod. mynd i'r dref oddiyma 6—7 heno—godro, sgubo'r ty, bwyda'r mochyn—boreufwyd etc.—9 wrth fy nghel—3 yna llorio, gwyngalchu hol erfin a'u torri, godro, golchi llestri, sgubo'r ty a'r clos, sychu sgidiau—ymolchi—½ wedi 9 . . . fy meddwl yn ry derfysglyd i fyfyrio heddyw . . .11.

10 Sab. . . . Mod a Ew. canolig (!)—G. 10 . . . O am fod yn sobr . . .

11 Llun. 5. Mamgu dod lawr rhwng 4—5 yn cart Gell. ei phlant gyda'i oll ond 2—lled wan wedi dod lawr—Ann yma gyda mam—ni mynd i'r daflod i gysgu heno.

12 Maw. . . . Bugeilio mamgu brig yr hwyr. Tom Cnwc yma a mam . . . mae rhaid i mi benderfynu astudio yn fwy dyfal, yn wir ni ddaw dim o ddiogi. Codi'n foreuach.

13 Mer. Codi 4 . . . awr bob bore i ddarllen . . . mamgu yn waeth heno.

18 Llun. 6½ . . . Mr. Davies, Frood Vale Agent heibio yma heddyw . . .

19 Maw. . . . clymu buwchod heno . . . O am gael fy meddwl yn gryno . . . rhyw bethau eraill sy am fynd a fy mryd . . . 11.

21 Iau . . . Ewythr o'r Pwll yma nawn dweud am i fi fynd i Pantteg Sul nesaf 10 Peniel 2. Gors 6—addewais fyned—yn wir nid oes gennyf amser i golli, rhaid ymroi . . . 11.

22 Gwe. . . . Ysgrif llythyr i Walter Butcher . . . rhois bapur a chase a ces 3d am hynny ganddo—lled dda . . .

24 Sab. 6.5 . . . darll. a meddwl yn ddios fynd i Pantteg 10 etc. garw *anghyffredinol* bron trwy'r dydd ond tipyn nawn a'r hwyr, llif geirwon, gwisgais rhwng 10—11 ar feddwl mynd i Pen. rhois fynu. Yr ysgol yma 2 . . . buom gartref oll drwy'r dydd heddyw. . . . O am werthfawrogi'r Bibl.

26 Maw. 4½ . . . darll. cwsg yn bur eon . . . codi rhy foreu—rhaid i fi wneud rhyw reol sefydlog oddeutu'r cysgu . . . mae fy meddwl ryw ffordd neu gilydd yn bur wasgar a diffrwyth nawr.

28 Iau. 6½ . . . tua Braichfa i dy Peggy Jack a thorth ac i Banty-clatshes a nol i'r cwrdd gweddi Rhydgoch.

Rhagfyr.

1 Sab. Codi ½ w. 7. Gwen. 10 . . . bwytta tamaid o fara chaws yn Plow lawr gyda Dd. J. i Tynewydd—cerdd. yn galed obry cylch 2, preg. yno 3. dim llawer iawn, lled rwydd . . . ces ddyddiadur am 1851 heddyw. Cys. 11.

2 Llun. 6½ . . . rhois 1½ at y cas. cen. (casgliad y genhadaeth) dwedais air ar y matter.—O mae achos genyf i ofidio nad yw cyflwr tlawd fy mrawd y Pagan yn gwasgu digon ar fy meddwl . . .

3 Maw. 10 cyn 6 . . . Mod gwneud canwyllau heno buais yn cadw dyletswydd deul. heno. . . 'Rwy'n meddwl yn aml pa fodd y bydd hi tua Froodvale ! (Dyma'r ysgol y dymunai fynd iddi—Gol.).

4 Mer. Codi 5 w. 7 a hwy wedi dal y clock—cys rhy hir . . .

5 Iau . . . Ewythr gweithio cered ar y nant yma heddyw. (Ni chlywais y gair *cered* am bompren ar nant o'r blaen eithr fe'i clywais am ddringfa ddi-ganllaw'r ieir at eu clwyd—"cered y geir"—Gol.). . . . Byd trafferthus yw hwn, rhyw ofid a rhyw flinder bron o hyd . . . 11.

7 Sad. 15 cyn 5 . . . rwyf lawr oddeutu 2 awr o'u blaen hwy fynychaf . . . mae crwydredd meddwl yn fy mlino o hyd.—11.

9 Llun. ¼ w. 4. Tam. o fara a chaws er maeth—codi ry foreu heddyw—5 rwyf am godi. cysgu'n cario o 5—6 . . . Y Diw. a'r Cron. heno—y Bibl yn well . . . 10.

13 Gwe. Codi 5. darll—10—ces fod yn rhydd wrth fy nghel—8 heno ond malu eithin . . .

18 Mer. . . . Pegi Morgan, Dd. Pengoynant yma heddyw—mae rhyw newydd cyffrous yn effeithio yn rhyfedd ar fy meddwl. Cys. 10.

20 Gw. . . . Esther Tyrhos yma brig y nos yn gofyn a ddeuwn i drosodd i Horeb Ion. 5, 1851, addewais fynd . . .

21 Sad. a w. 5 . . . bugeilio mamgu 12—1, hol clai 2—3. . . . Gorff. fy syl. ar Mat. 5.8—cael penknife newydd am 6 ch. . . .

23 Llun. . . . ac yna tua Braichfa 1—3 es i wrando dan ffen. (estr ?) y ty cwrdd—Perg. yno ar han. ei breg ar Sal. 23.4—points da.

24 Maw. 6½ . . . taclu i fynd i Peniel—oddiyma 25 m. w. 3 obry 5 . . . cerdded lled galed—cael croesaw pur dda yno—dim or gwr gartref pan es yno—ymddiddan e . . . ½ w. 8 yna swp, dar. a gwedd. Mae eisiau doethineb mawr mewn teuluoedd.

Nad. 25. Codi 7—dim hoffi codi'n gynt rhag disturbio'r teulu, er hyny nhwy wedi codi ers meityn—ces ystaf. a gwely plyf neith.—dwfr seb., gwydr-ddrych, crib, brwsh gwallt etc. mewn ystafell wedi ei dodrefnu'n hardd . . . ces de a 1s. . . .

27. Gwe. . . . Clyw. ei bod yn codi corff Eliza'r Vol heddyw (!) O am drechu y cnawd.

29 Sab. Codi ½ w. 4 . . . dar—8. bwriadu i fynd i Abergorlech—rhwystrwyd fi gan y glaw—es i Gwer. dech. y cwrdd. Yr ysgol yma gyda fy nosbarth . . . dwedais air ymadawol . . .

30 Llun. 5.35 . . . Mod. yn glaf er neith. yn y gwely fynych, trueni mawr—O un anwyl yw hi . . . O am fod yn ddiwyd.

31 Maw. ½ w. 4 . . . ffarwel. Cys. 10.

* * *

Wele 1850 eto drosodd—y flwyddyn bwysicaf i mi erioed ond *un*, ar bwysicaf oll er dechreuad fy *ngyrfa grefyddol*. Yn y flwyddyn yma (1) yr ymegniais fwyaf erioed am wybodaeth—ni fuais un flwyddyn o'r blaen mor ddiwyd i ddarllen a myfyrio. Difyr oedd yr olwg arnaf am llygad ar y llyfr ar esgid ar yn ail, ac ar y llaw a dynai'r edefyn cwyrog yn troi dail y Memrwn Santaidd a llyfrau da eraill yn awr ac eilwaith (2) Eangais yn fy ngwybodaeth ysgrythyrol yn neilltuol. Cai y Bibl gyfran om hamser.

(Diwedd).

*Ol-Nodiad.—Nid yw'r dyddiadur am 1851 ar glawr hyd y gwn i a thrueni mawr am hynny oblegid fe gawsem fanylion diddorol am Ysgol Ffrwd-Fâl ynddo yn ddiamau. Fodd bynnag, y mae dyddiaduron am 1852, 1853, 1855. (Y mae dau ddyddiadur am y flwyddyn olaf ond gan fod y ddau yn gwbl wahanol, y cyntaf yn sôn am ddyddiau Coleg Caerfyrddin a'r llall yn sôn am ei flwyddyn gyntaf yn Glasgow, mae'n amlwg iddo ysgrifennu hanes 1857 ar ddyddiadur 1855. Y peth sy'n rhyfedd yw ei fod wedi ysgrifennu "1855" ar hwn a heb wneud un cyfeiriad ar y dechrau ei fod yn drysu dyddiau'r wythnos). Ceir darnau o ddyddiaduron eraill, megis 1875, 1876, 1877 (gweddol helaeth), 1878, 1879. Y mae'r rhain i gyd ar fenthyg gennyf ar hyn o bryd o Lyfrgell Llwynmarles ynghyd â hanes manwl ei fywyd colegol, "My College Life", llyfryn o ddyfyniadau a math o 'lyfr desg" o'i ysgol o 1867—1877. Y mae'r llyfr olaf hwn yn cynnwys rhestrau o'r disgyblion ynghyd â manylion llwyddiant a methiant rhai ohonynt. O hyn ymlaen, bwriedir dyfynnu hwnt ac yma o'r llawysgrifau yma heb gadw at drefn y blynyddoedd. Hyfryd gwybod fod un o'i ferched, Mrs. Liza Marles James, yn cael boddhad mawr wrth ddilyn y dyddiadur uchod a hynny trwy gymorth un o hen ddisgyblion ei thad, y Parch. Tysul Davis, Bryste. Cofier fod Gwilym Marles wedi marw yn 1879.*—Gol.

# Diwinyddiaeth y Testament Newydd

Gan John L. Williams, Pengam.

(*Diweddglo*).

## IV.

(*Parhad*).

Yn yr Efengylau Iesu'n unig sy'n sôn am Fab y dyn. Ni ddigwydd y term o gwbl yn yr hanes (*narrative*), ond bob tro yn nywediadau Iesu ; ef, ac nid yr efengylwyr sy'n ei ddefnyddio. Beth a gyfrif am hyn ? Yr ateb cyffredinol bron, hyd y gwn i, ydyw, am i Iesu ddefnyddio Mab y dyn i'w ddisgrifio ef ei hun, ei genhadaeth, ac, am gyfnod, ei ddilynwyr. Eddyf Bultmann fod yr Efengylau yn eu ffurf presennol yn hunaniaethu Iesu â Mab y dyn, ond na wnaed hynny gan Iesu ei hun ond gan y disgyblion wedi ei farw. Un arall nag ef ei hun oedd Mab y dyn i Iesu, a phrawf o hynny ydyw mai yn y trydydd person y sieryd amdano bob amser. Os gwir yw'r honiad mai'r Eglwys a wnaeth Iesu a Mab y dyn yn un, buasem yn disgwyl iddo gael ei alw wrth y teitl hwnnw ambell dro yn yr Epistolau, ond ni wneir hynny o gwbl. Ar y llaw arall, ymhob traddodiad cynnar sy gennym am Iesu Hanes nid oes arlliw ei fod ef a Mab y dyn yn ddau ar wahân.

A chaniatau, felly, i Iesu ei hunaniaethu ei hunan, ac efallai, ei ddisgyblion â Mab y dyn, beth a barodd iddo wneud hynny ?, a beth a olygai wrth y term ? Ac o ba le y cafodd yr enw ? Nid yw Bultmann yn trafod y cwestiynau hyn. Hyd y gwelaf i, cymer yn ganiataol mai ffigur mythologaidd oedd, ac yn rhan o olygfyd y ganrif gyntaf. Fel cais i'w hateb, amlinellaf yn fyr iawn ddamcaniaeth a dderbynir, fwy neu llai, gan amryw ysgrifenwyr modern, ac y sydd i'm tyb i'n osgoi diffygion Bultmann.

Cred amryw o ysgolheigion erbyn hyn mai o Lyfr Daniel ac nid o'r llên apocryffaol y cafodd Iesu y disgrifiad Mab y dyn. Yno hefyd y cafodd yr idea o Deyrnas Dduw—ymadrodd a geir yn anfynych iawn yn yr ysgrifeniadau apocalyptaidd. Y mae nifer o adleisiau o Lyfr Daniel yn nysgeidiaeth Iesu. Yn rhyfedd iawn ni nodir hyn gan Bultmann. Yn y seithfed bennod o Lyfr Daniel y mae gweledigaeth Mab y dyn. Symbolaidd yw ei holl ffigurau. Golyga Mab y dyn (neu'n gywirach ' mab dyn ') ffigur dynol, neu un ar ffurf dyn. Ystyr y ffigur fel yr eglurir ydyw ' saint y Goruchaf,' ac i'r awdur golyga weddill ffyddlon y genedl Iddewig. Ymddengys Duw ar ffurf hynafgwr hybarch ac urddasol—' yr hen o ddyddiau.' Portreadir cynhulliad barn i ddwyn i ben ormes y pedwar bwystfil,

sef y teyrnasoedd rheibus a chreulon y gwyddai'r awdur amdanynt. Dioddefodd saint y Goruchaf o dan law un o'r galluoedd drwg a threisgar hyn dros ysbaid, ond wedi hynny iddynt hwy y rhoddwyd y frenhiniaeth hyd byth. "Daeth un tebyg i fab dyn gyda chymylau'r nefoedd ; ac at yr Hen o ddyddiau y daeth, ac fe roddes iddo lywodraeth", etc. Y mae'n naturiol meddwl mai symbol o'r bwriadau Dwyfol, y da a'r aruchel, y dynol a'r tirion, yw ' dyfod gyda chymylau'r nefoedd,' a hynny'n gyferbyniol â'r bwystfilaidd a'r materol.

Os medrodd awdur Llyfr Daniel ddarlunio goruchafiaeth yr uchaf mewn bywyd yng ngweledigaeth dyfodiad Mab dyn, gallai Iesu hefyd â'i ffydd gyfoethocach, ddefnyddio'r un symboliaeth. Yng nghyfnod olaf ei weinidogaeth y dechreuodd fabwysiadu'r term, a'r genedl bellach wedi gwrthod ei apêl, a'r storm yn crynhoi. Yr oedd ganddo wirionedd am Dduw a bywyd dyn a fedrai ddidoli a barnu. Yr oedd ei genhadaeth yn argyfyngol i'r genedl Iddewig a'r byd.

Yn foesol ac ysbrydol yr oedd ei ddysgeidiaeth yn ddatguddiol ac awdurdodol. Ar sail ei ymwybod mabol o Dduw yr oedd yn sicr o alwad ac anfoniad, nid mewn ystyr uchanianol, ond proffwydol. Ei brofiad arbennig o'r Tad cariadlon a roes iddo ei ymwybyddiaeth Feseiannaidd. Cyhoeddi dyfodiad Teyrnas Dduw a datguddio'i phresenoldeb oedd ei neges. Fel y dywaid T. W. Manson, "ceisiai greu Mab y dyn yn ei gwmni dilynwyr"—y rhai gydag ef a fyddai'n cynrychioli'r Deyrnas. Ond pan dorrodd y storm nid oedd un ohonynt yn barod i'w dilyn ar hyd llwybr merthyrdod.

"Ymlaen y cerddaist dan y groes a'r gwawd,
Heb neb o'th du.
Cans llosgi wnaeth dy gariad pur bob cam,
Ni allodd angau'i hun ddiffoddi'r fflam".

Yn ei deyrngarwch hyd angau mynegodd gariad a daioni dimollwng Duw, oblegid un oedd ei ewyllys â'r Tad, a'i awyddfryd a'i ofid yn awyddfryd a gofid Duw. Ef ei hun oedd Mab y dyn yn gorchfygu pwerau drygioni trwy ei ddaioni a'i gariad hyd angau.

Y mae golygiad Bultmann am Iesu'n rhagfynegi y deuai Mab y dyn yn wyrthiol i ddirwyn cwrs amser i ben, yn gwbl anfoddhaol. Ni ddysgodd Iesu fod y byd ar ben, yn hytrach credai fod argyfwng ei fywyd a'i farw yn datguddio gweithgarwch gras a barn y Tad. Nid terfynu hanes ond dadlennu ei arwyddocâd tragwyddol, chwedl C. H. Dodd. Y rialiti tu ôl i symboliaeth Mab y dyn yn yr Efengylau yw'r dadleniad roddwyd i ddynion o'r gwerthoedd moesol eithaf, ym mywyd, dysgeidiaeth, a marw Iesu o Nasareth.

## Priodasau

RHAGFYR 12 yng Nghapel-y-Bryn gan y Parchn. J. Marles Thomas, S. E. Bowen a D. Rhydderch, unwyd mewn glân briodas ANNA BERYL JONES, merch Mr. a'r diweddar Mrs. Tom Jones, Parcyrhos a EIRWYN DAVIES, Barley Mow, Llandysul.

IONAWR 16, y'g nghapel Horeb, Llandysul gan y Parchn. W. R. Nicholas, B.A., B.D. a J. Marles Thomas, M.A., unwyd mewn glân briodas TOM DAVIES, unig fab y diweddar Mr. John Davies a Mrs. Davies, Gwarcefel ac ELLEN WILLIAMS, merch Mr. a'r diweddar Mrs. Williams, Rhiwlug, Tregroes.

"Pob bendith ar y ddau uniad".

## Marwogofion

AR y 23ain Tachwedd, yn 85 oed, EVAN JONES, Pantscawen, Pontshaen. Ganed ef yn "Crosgwyn" (plwyf Llanarth), yn un o ddeg o blant. Bellach nid oes ond dwy chwaer yn unig yn aros ar ôl o'r hen deulu ffyddlon. Gweithiwr diwyd drwy ei oes, dechreuodd fel gwas fferm yn Crugyreryrisaf, Talgarreg. Yr oedd ganddo gof da am yr hen amser, a diddorol oedd treulio awr yn ei gwmni i sôn am y dyddiau a fu. Yn ystod ei wasanaeth yn Esgairddedwydd, ymbriododd â Hannah, merch Sam Gwehydd, Pontshaen. Bu iddynt saith o blant, ond tri mab a merch yn unig erys heddiw ar ôl. Wedi marw ei briod ymfudodd o'r Caebach, lle bu'r teulu yn byw am flynyddoedd, ac aeth i fyw at ei ferch a'i fab-yng-nghyfraith yn Pantscawen. Hyd at fisoedd ei gystudd caled bu yn dilyn ei orchwylion yn ôl ei ddiwydrwydd arferol. Yno y cafodd bob ymgeledd yn ystod ei afiechyd. Adnabyddid ef fel gweithiwr gonest a diwyd. Am gyfnod maith bu yn gweithio ar y Ffordd Fawr dan y Cyngor Lleol, ac am ysbaid o yn agos i ugain mlynedd bu yn Dorrwr Beddau ym Mhantydefaid. Perchid ef am ei onestrwydd a'i ddiwydrwydd. Un parod ei gymwynas, a gair caredig i bawb. Ar hyd y blynyddoedd bu ef a'r teulu yn ffyddlon i'r achos ym Mhantydefaid. Yno y claddwyd ei weddillion dydd Gwener dilynol. Daeth torf fawr ynghyd i dalu iddo'r gymwynas ola'. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parchn. T. Lloyd Jones, Ty'n-y-gwndwn ; George Ll. Jones, Peniel, Aberaeron (A) ; Aubrey J. Martin a J. Marles Thomas. Cyfeiliwyd wrth yr organ gan Miss Margaret Evans, Pontshaen Stores. Estynnir cydymdeimlad â'r plant a'r ddwy chwaer oedranus yn eu hiraeth.

Dydd Sul, Hydref 25 bu farw Mrs. SARAH ANNE LLOYD DAVIES, annwyl briod Mr. T. T. Davies, Gwyon Castle, Llandysul wedi cystudd trwm yn y diwedd. Hannai o hen deuluoedd enwog ym myd Undodiaeth y Sir, ond y drwg amdani y mae dau deulu o du ei mam yn marw allan ynddi hi, ac o ochr ei thad deuai o hen deulu Llanfair. Cynrychiolai'n deg y teuluoedd hyn a ddalodd yn driw i Undodiaeth hyd y diwedd. Benyw yn caru byw yn yr encil ydoedd, ond wedi'i hadnabod yr oedd yn gymeriad cryf a phersonoliaeth nobl iddi. Yr oedd ynddi galon wresog a charedig, a llanwodd drwy gydol ei bywyd le uchel o barch ym mywyd yr eglwys a'r ardal. Ers tro bellach gwelid hi yn crino, ond ni feddyliasom fod y diwedd yn agos. Ar Sul, Hydref 25, hedodd ei hysbryd o fyd o boen a nychdod i fyd hyfrytach ac i fywyd uwch a gwell. Claddwyd hi y dydd Mercher canlynol ym mynwent Pantydefaid a'r angladd yn anghyoedd. Gwasanaethwyd yn y tŷ a chynorthwywyd yn y Capel gan ei gweinidog, y Parch. Marles Thomas, M.A., a phregethwyd a gwasanaethwyd ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr. Gadawodd briod a nith, a oedd fel merch iddi, ynghyd â nifer o berthynasau a ffrindiau i alaru o'i cholli. Y mae hi wedi mynd, ond fe ddaw atgofion fel perarogl hyfryd i'n hatgofio amdani dro hir.

Rhagfyr 15, 1953, Mrs. RACHEL DAVIES, priod John Davies, Blaentir, plwyf Dihewyd (gynt o'r Wernddu) yn 72 oed. Bendithiwyd hi â iechyd da gydol ei hoes hyd tua mis cyn y diwedd. Cafodd ergyd o'r parlys a blin gennym fod ei phriod hefyd yn wael ei iechyd ers blynyddoedd. Un o'r gwragedd da y sonia Paul amdanynt yn ' gwarchod gartref ' ydoedd, a chofir amdani fel gwraig ddiwyd. Yr oedd wastad yn siriol a chroesawus i ymwelwyr bob amser. Yr oedd yn aelod yn Rhydygwin, ond wedi symud i Blaentir rhwystrwyd ei ffyddlondeb gan y pellter, ond daliai i gofio'n dda am yr achos. Claddwyd ym mymwent Capel-y-Bryn a gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams a chynorthwywyd gan y Parchn. D. Jones, Ficer Silian ; T. Lloyd Jones, Ty'n-y-gwndwn ; S. E. Bowen ; A. J. Martin ; J. Marles Thomas a T. O. Williams. Gadawodd briod ac amryw o berthnasau agos mewn tristwch mawr.

Rhagfyr 18, yn nhŷ ei mab yn y Cei Newydd, bu farw Mrs. MARGARET DAVIES, Maenygroes yn 85 oed. Yn yr angladd ym Maenygroes y dydd Mawrth dilynol gwasanaethwyd gan y Parchn. S. E. Bowen, T. Pugh Jarman, Victor Thomas, D. Pugh, E. J. Davies a S. Morgan. Yr oedd Mrs. Davies yn un o deulu Abercwm, Llanllwni a threuliodd y rhan fwyaf o'i bywyd priodasol yn y Felinfach, Llanllwni pryd yr oedd yn fawr ei ffyddlondeb yng Ngallt-y-blaca. Gwraig hawddgar, garedig a mawr ei pharch ydoedd, a gadawodd briod, tri mab a llawer o berthnasau mewn galar o'i cholli.

Rhagfyr 19, Mrs. JANE DAVIES, Abermeurig Mansion, Gartheli ; gweddw y diweddar William Davies, Brynog Mansion, Felinfach yn 66 oed. Bu farw yn ddisymwth yn nhŷ ei merch a'i mab-yng-nghyfraith, y Cynghorwr J. Rogers Lewis, Y.H. Gwraig weithgar oedd ac ni fwytaodd fara seguryd.

Ni wastreffid ganddi nag amser na dim arall. Meddai ar gydymdeimlad ag eraill ac fe ewyllysiai ddaioni i'w chyd-ddynion, ac yr oedd ei chymdeithas megis heulwen yn gwasgaru prudd-der. Claddwyd ym mynwent Rhydygwin a gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. T. Lloyd Jones ; Trefor Lloyd, Shiloh, Llanbedr ; T. Richards, Ficer Trefilan ; T. Jones, Ficer Ystrad a D. Jones, Ficer Silian. Gadawodd fab a merch, chwech brawd a thair chwaer, ynghyd â'u teuluoedd mewn tristwch dwys.

Rhagfyr 31, ar ôl cystudd byr yn Ysbyty Aberystwyth, bu farw THOMAS JONES, Cornicill, Llanwnen yn 59 oed. Yr oedd yn ŵr poblogaidd, hynaws a pharod ei gymwynas yn ei ardal. Amaethwr llwyddianus ydoedd ac fe deimlodd cymdogaeth helaeth dristwch o'i golli. Daeth torf enfawr i'w angladd yng Nghapel-y-Bryn y dydd Mawrth dilynol pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. S. E. Bowen, Idris Evans, Iorwerth Davies, Aubrey Martin, S. Morgan a T. O. Williams. Cydymdeimlir yn fawr â'i briod a'r tri mab ynghyd a'i bedwar brawd a'i chwaer a llu o berthnasau eraill.

Yn sydyn ac annisgwyl, yn ystod oriau olaf yr hen flwyddyn, bu farw Mr. JOHN OWEN JAMES, Richmond Villa, Llandysul yn 69 oed. Yn unol ag arfer y teulu aethai ef a Mrs. James a'i chwaer Mrs. T. Arthur Thomas i'r Tonn i groesawu'r flwyddyn newydd. Yno, yn ddi-rybudd, symudwyd o'n plith un o ffyddloniaid ein mudiad. Hanai o'r ddwy ochr o hen deuluoedd Undodaidd o barchus goffadwriaeth. Unig fab y diweddar Hybarch William James, B.A. ydoedd (cyn-weinidog y Bwlch a'r Llwyn a'r Graig) ac olynydd Gwilym Marles. Ei fam oedd Sarah, merch yr Hybarch Owen Evans, Hen Dŷ Cwrdd, Cefn Coed. Magwyd ef, felly, yn y traddodiad Undodaidd, a thrwy ei oes bu'n ffyddlon i dreftadaeth y teulu. Fel y gellid disgwyl yr oedd yn ŵr o argyhoeddiadau grymus ac o ysbryd annibynnol. Ofer oedd i gymhellion anheilwng a syniadau gau geisio dylanwadu arno oblegid fe arhosai ar y graig gadarn yn Nhŷ ei Dad i ddiogelu pob achos da. Ac yn y Graig bu'n ffyddlon am oes ac am gyfnod o ddeng mlynedd-ar-hugain rhoes wasanaeth trylwyr fel Trysorydd y gynulleidfa. Er iddo ymddeol o'i swydd ni pheidiodd ei sêl ac ef oedd cadeirydd presennol Pwyllgor yr Eglwys. Ni chollai gwrdd, ac anodd dygymod â'r sedd wag gerllaw pulpud ei dad. Gwasanaethodd gylch eangach na'i gapel ; ef oedd Trysorydd y Gymanfa Ganu, ac yr oedd yn adnabyddus iawn ym myd masnach fel gŵr o uniondeb pur. Hawdd y gellid dyfynnu Alfa a ganodd ar achlysur marw ei dad :

"Hunodd brenindad Brynhyfryd,
Daeth cwmwl i lasnen ei ddydd ;
Ond ha ! boreuddydd o wynfyd
I'w goffa—Brynhyfryd a fydd".

Claddwyd ei weddillion y Llun dilynol ym mynwent Pantydefaid a'r angladd yn anghyoedd yn y tŷ a'r capel. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. Percy Evans (Rheithor Manordeifi, nai-yng-nghyfraith) ; Dd. Rhydderch,

Seion ac yn y capel gan y Parchn. S. E. Bowen, R. Morris a'i weinidog, y Parch. J. Marles Thomas hefyd a wasanaethodd ar lan y bedd. Estynnir cydymde mlad cylch eang i'w briod, ei fab, Dr. William James, ac i'w chwaer.

"Trwy wir gred, dalied ei deulu—yn hawdd
Trwy weddus alaru . . ."

Ar nos cyn y Nadolig bu farw Mrs. EBENEZER DAVIES, Rhianva, Broniestyn, Aberdâr yn 91 oed. Gweinidog gyda'r Annibynwyr oedd ei gŵr cyntaf, ac fe gofir am Mrs. Ebenezer Davies fel un o ddiaconiaid hynaws yr Hen Dŷ Cwrdd. Yr oedd Mrs. Davies yn wraig grefyddol iawn ei thuedd a chyflawnodd waith da yn ei chylch a'i chapel. Claddwyd ym mynwent Aberdâr a gwasanaethwyd gan y Parch. Ifor Parry (A) yn absenoldeb ei gweinidog. Heddwch i'w llwch.

Ionawr 22 bu farw Mrs. GWLADYS JONES, Tŷ Teilo, Aberdâr yn 87 oed, un arall o hen bererinion y cwm. Yr oedd John James (Iago Fwyaf) ei thad yn fardd go dda ac yn un o sylfaenwyr Tŷ Cwrdd y Graig (Highland Place). Dynes gadarn ei ffordd oedd Mrs. Jones ac nid oedd arni ofn dweud y gwir plaen wrth neb. Carodd ei chapel yn fawr a rhoes o'i gorau iddo ar hyd oes faith. Gedy un mab, Idris i alaru o'i cholli, ac fe'i cofir yn annwyl gan gyfeillion lu. Claddwyd ym mynwent Aberdâr a'i gweinidog yn gwasanaethu.

Rhagfyr 19, yn 76 mlwydd oed, bu farw Mr. SAMUEL WILLIAMS, Drefach, Llanwnen wedi cystudd hir. Un o hen deulu Tynewydd, Ffynnonfair ydoedd o du ei 'dad. Gweithiwr gonest ydoedd a gŵr distaw a thawel. Yr oedd yn byw ar ei ben ei hun a chafodd ergyd o'r parlys ac ni bu fyw nemor o ddyddiau wedyn. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol yng nghladdfa'r teulu yng Nghapel y Groes. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr. Gadawodd chwaer, brodyr a nifer o berthnasau a ffrindiau i alaru ar ôl hen gâr a ffrind. Heddwch i'w lwch.

Bu farw ESTHER WILLIAMS, 8, Clettwr Terrace, Pontsian ar y 30 o Ragfyr, 1953 wedi cyrraedd ei 82. Priod William Williams, Bryngolau gynt ydoedd, a'r llynedd dathlwyd eu priodas ddiemwnt. Aelod oedd o deulu Penrhiwcoule a fu'n ffyddlon iawn yn y Llwyn, a dangosodd hithau yr un ffyddlondeb a'r un cariad at yr achos. Bu'n gymwynasgar iawn, a gwnai bopeth yn drylwyr ac yn ddidwyll. Claddwyd hi ym mynwent Llwynrhydowen ar yr 2 o Ionor, y Parchn. J. Marles Thomas ac A. J. Martin yn gwasanaethu.

Ar ôl amser hir o lesgedd bu farw SARAH WILLIAMS, priod David Williams, Bargoed, Tregroes ar y 5 o Ionor, 1954 yn 74. Wedi bod am flynyddau ym Moelhedog Uchaf symudodd y teulu i Fargoed ychydig flynyddau'n ôl, ond parhaodd hithau i hiraethu am yr hen ardal. Perthynai ei rhieni i hen achos Waunifor, a daeth eu plant ag amrywiaeth i gyfeillach y

Llwyn i gyfrannu at ehangder ei meddwl. Bu'n ymgeledd i eraill, ac fe gafodd hithau ei hymgeleddu yn ei llesgedd. Bu'n ffyddlon hefyd i'r Llwyn. Yn yr angladd ar y 9 o Ionor, gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. W. R. Nicholas, Bwlchygroes a W. M. Jenkins, Talgarreg ac yn Llwynrhydowen gan y Parch. A. J. Martin.

Ionor 11, 1954 bu farw (trwy ddamwain), JOHN EVAN ALFRED JONES, mab hynaf Mr. a Mrs. Jones, 20, Fawn Road, Upton Park, London, E. 13, ond yn fwy adnabyddus fel o Aldergate, Felinfach. Nid oedd ond 21 mlwydd oed ac yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Llundain. Yr oedd yn fachgen addawol a gyrfa ddisglair o'i flaen. Yr oedd wedi bod ar ei wyliau yn dringo mynyddoedd yr Alban ac yn dychwelyd gyda dau gyfaill. Ar y ffordd o Lancaster i Fanceinion rhedodd y modur i mewn i lorri a oedd yng nghlais y clawdd a chafodd yntau ei ladd bron ar unwaith. Ducpwyd y corff yn ôl i Ddyffryn Aeron lle yr oedd wedi treulio rhai blynyddoedd yn ystod y rhyfel wedi cilio o'r bomiau yn Llundain. Yr oedd ardalwyr Dyffryn Aeron yn ei, adnabod yn dda felly. Nid oes un ddamwain heb ddwy. Er tristwch i'r teulu yr oedd y Gweinidog, y Parch. Lewis Williams wedi'i gaethiwo i'w wely, a chymerwyd y gwasanaeth gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr a chynorthwywyd gan Ficer Llanon, Ficer Cilcennin, Gweinidog Ty'nygwndwn a Gweinidog Dihewyd. Gadawodd un brawd ieuanc, tad a mam, brawd a chwaer, heblaw nifer o berthynasau agos a llu o ffrindiau i alaru amdano wedi'r *tragedy*. Gobeithio y caiff y teulu bach nerth o'r newydd i wynebu'r brofedigaeth lem a nodded y nef a fo trostynt yn eu galar a'u hiraeth.

## DRWS Y CAPEL.

(*Buddugol ym Mhantydefaid, Rhagfyr* 1953).

Moel ei wedd, cyrchfan fy mhlwy',—i'w riniog
Yr awn am gynhorthwy ;
Ni wn pam—lle bu tramwy
Teneuo maent yno mwy.

*Cilie.* Alun Jones.

---

*Yr ail-orau ar yr un testun.*

Teg ddôr o gnotiog dderi,—hen adwy
I fyd salm a gweddi ;
Yn oes malltod a thlodi
Hwn yw drws y ' dau neu dri.'

*Tregróes.* T. Llew Jones.

# Newyddion yr Enwad

CAERONNEN.—Ionor 5 cynhaliasom ein tê blynyddol a'n Coeden Nadolig yn y festri ac ni welais gynifer yma ers tro. Yr oedd pawb a allai wedi dod a chawsom noson lawen. Nid oes raid dweud am ddanteithion Caeronnen, a chafwyd cyngerdd hwylus a chwaraeon difyr. Yr oedd Miss Sallie Davies, B.A. wedi addysgu'r plant yn dda, a chawsom berfformiad bach da o ŵyl y geni a phob plentyn yn cymryd ei ran. Daeth Santa Clôs yn ei dro ym mherson David Jones, Lanlas a rhoes goron mewn *case* i bob plentyn, a thalodd y gweinidog ddiolch gwresog y gynulleidfa i Mr. Jones a theulu Lanlâs am eu haelioni. Mwynhaodd y plant eu hunain wrth adrodd a chanu a a chwarae. Yn ystod y nos cafwyd un item ddiddorol. Yr oedd ein horganyddes, Eluned Davies, Maesyderi yn un-ar-hugain oed a chyflwynodd y gweinidog, mewn ychydig o eiriau dethol, rodd o gloc prydferth iddi ar ran y gynulleidfa fel arwydd o ddiolch a gwerthfawrogiad am ei gwasanaeth a'i ffyddlondeb am flynyddoedd. Nid yw'r gân byth yn pallu yng Nghaeronnen. Siaradwyd ymhellach gan David Jones, Lanlas ; Llywelyn Jones, Gelligaer a'r Parch. Islan Jones, M.A. Canwyd penillion gan nifer, a diweddwyd drwy gyd-ganu Her Wlad Fy Nhadau. Cofiaf am nifer mawr o wyliau tebyg, ac y mae rhai fel hon yn aros yn y cof am eu hysbryd addfwyn llawen.—Ar y Sul cyn y Nadolig y mae yna arfer yng Nghellan i ni gyd ddod at ein gilydd yn ein tro i ganu Carolau. Y mae Eglwys y Cymru, Capel yr Erw a Chaeronnen yn un y noson hon. Ein tro ni yng Nghaeronnen oedd hi eleni a chafwyd noson gofiadwy ; y gweinidog yn llywyddu, Ficer y Plwyf yn darllen y wers a'r Parch. Anthony Davies yn arwain mewn gweddi. Yr oedd Caeronnen yn llawn a chafwyd canu hwylus gyda Mr. David Jones, Lanlâs yn arwain a Miss Eluned Davies wrth yr organ. Yr oedd ysbryd Nadolig yn yr awyr ac ym mhob calon. Y mae hyn oll yn gychwyn godidog i flwyddyn bwysig yn hanes y gynulleidfa oherwydd adeg y Cyrddau Blynyddol ym mis Awst dethlir tri chan mlwyddiant cychwyn cyntaf yr achos ymneilltuol yng Nghellan. Croeso cynnes i holl ddarllenwyr Yr Ymofynnydd i Gaeronnen ym mis Awst !

BRONDEIFI.—Ionor 6, 1954 cynhaliodd Ysgol Sul Brondeifi ei thê a'i Choeden Nadolig, a chafwyd noson hwylus. Urdd y Benywod oedd tu ôl y cyfan eleni ac yn gyfrifol am y costiau i gyd. Y swyddogion am eleni yw Mrs. Oswald Williams (Llywydd) ; Mrs. Morgan, Treherbert a Mrs. Jones, y Dolau (Is-Lywyddion) ; Miss Nellie Jones, Miss Lena Hughes a Mrs. James, Cwmanne (Ysgrifenyddion) ; a Mrs. Jones, Gelliddewi-isaf a Meistresi Evans, Drefach House (Trysoryddion) a Mrs. Rees, Banc Glandulas yn *Press Correspondent*, a chafwyd help aelodau yr Urdd ac eraill wrth y byrddau llwythog. Ni wn a gawsom well gwledd erioed. Prynwyd y rhoddion ac fe'u rhoddwyd ar y goeden gan Miss Nellie Jones, Miss Lena Hughes a Meistresi Evans, Drefach House, a phan ddywedaf eu bod wedi prynu dros drigain o roddion deëllir y

gwaith a'r drafferth. Santa Clôs oedd Idwal Davies, Bridge Street, a chafwyd hwyl dda gyda'r plant. Y mae'r Ysgoldy yn rhy fach ar gyfer amgylchiad fel hwn, fel na ellir cael cyngerdd yng ngwir ystyr y gair. Bydd raid i'r gynulleidfa cynt neu hwyrach i eangu'r Ysgoldy a chodi tŷ'r gweinidog, a dyna ond odid fydd un o oruchwylion cyntaf gweinidog newydd maes o law. Rhoddwyd help gan lawer, ond yr oedd y noson yn oer, a'r heolydd yn stania, fel y cadwyd llawer rhag dyfod. Talwyd diolch yr Ysgol Sul gan y Gweinidog ac y mae ymhob cynulleidfa weithwyr parod a diwyd. Bendith arnynt.

URDD Y BENYWOD, RHANBARTH CEREDIGION.—Brynhawn Sadwrn, Rhagfyr 12 cynhaliwyd cyfarfod blynyddol yr Urdd yng Nghapel-y-Bryn, Cwrtnewydd. Gwenai ambell rosyn yn y pentref, a blodau mefus ar y ffordd i fyny i Gapel Bryn Bach, fel pe baent am estyn croeso arbennig i Miss Constance Harris, llywydd yr Urdd ar ei hymweliad â Sir Aberteifi. Cymerwyd rhannau arweiniol y gwasanaeth a gwasanaethwyd wrth yr organ gan ddwy aelod ifanc o Gapel-y-Bryn, sef Misses Dilwen ac Ann Davies. Gweinyddwyd wrth y Bwrdd Cymun gan y Gweinidog. Mewn araith bwrpasol wrth fynd o'r gadair gwahoddodd Mrs. Evans, Brynllefrith un arall o ffyddloniaid yr Urdd, Mrs. Davies, Penbrynmawr, i'w llanw ar ei hôl. Etholwyd Mrs. Marles Thomas yn Is-Lywydd, ac ail-etholwyd y swyddogion eraill. Wrth gyflwyno'i hadroddiad dywedodd yr Ysgrifennydd (Mrs. Davies, Caerwilym iddi ddal y swydd am un flynedd ar hugain. Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i ddangos ei gwerthfawrogiad o'i gwaith trylwyr yn ystod y cyfnod maith hwn trwy basio penderfyniad i'w anrhegu. Yn ei haraith anogodd Miss Constance Harris yr aelodau i fod yn fwy gweithgar nag erioed yn eu cysylltiad â'r eglwysi. Diolchwyd iddi gan Mrs. Marles Thomas a Miss S. H. Davies. Profodd y lluniaeth a'r croeso yn y festri ar ôl y cyfarfod yn ddiweddglo hapus i'r prynhawn.

BWLCHYFADFA.—Nos Sadwrn, Ionawr 2 rhoddwyd gwledd Nadolig i'r Plant. Cafwyd digonedd o fwyd blasus fel arfer ac ar ôl y te dosbarthwyd gwobrwyon i'r plant a fu'n ffyddlon i'r Ysgol Sul. Rhoddwyd llyfr i bob un a hefyd siocled gan Miss Hefina Griffiths, y Fadfa a Mico Kotlar, yr Eryri. Cafwyd cyngerdd hwylus i ddilyn a'r gweinidog yn arwain. Mae ein dyled yn fawr i "Mico" am goeden Nadolig mor braf. Mr. Evan T. Davies, Efail Castell Hywel oedd Santa Clôs a Miss Ellen Thomas, Green Grove oedd wrth y piano.—Ar Nos Sul, Ionawr 3 perfformiwyd pasiant crefyddol gan blant yr Ysgol Sul. Yr oedd yn awr a hanner o wledd i'r rhai a'i gwelodd, y gwisgoedd yn addas a phob un ar ei orau. Aed y clod i'r athrawes, Miss Ellen Thomas, sy'n meddu dawn arbennig at ddenu'r gorau oddi wrth y plant. Cafodd galondid a chymorth yng nghyd-wasanaeth ei brawd, Mr Davie Thomas, a ddaeth bellach i fyw i Dalgarreg. Cafwyd nifer o wahoddiadau i berfformio'r pasiant hwn mewn capeli eraill eisoes a dymunwn bob hwyl i'r parti ar ei gylchdaith. Dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. Aubrey Martin a diolchwyd i Miss Thomas a'r plant gan Mr. Evan Davies, Woodland a Mr. Evan Ll. Jones, Llanybydder.

GRAIG A PHANTYDEFAID.—Cynhaliwyd Eisteddfod Flynyddol Pantydefaid ar Rhagfyr 5, a bu'n llwyddiant mawr. Llywyddwyd gan yr Henadur Josiah Jones a Mr. David Walters, ac fe arweiniwyd gan Mr. Ifan Jones a'r Parch. J. Marles Thomas.—Cynhaliwyd "Arwerthiant Gwaith Llaw" y Graig ar Rhagfyr 9, a derbyniwyd tua £200 yn ystod y dydd. Agorwyd yr arwerthiant gan Mr. D. G. E. Davies, Faerdre. Blin gennym i Mr. Davies fethu a bod yn bresennol.—Rhoddwyd tê a Choeden Nadolig i blant Pantydefaid ar Rhagfyr 23 a Mr. D. O. Evans oedd ein Santa Clôs. Anrhegwyd ffyddloniaid y flwyddyn ac fe gafwyd hwyl o'r gorau. Rhoddwyd ffrwythau melys gan Miss Pegi Evans, Gwarcefel Arms a Mr. a Mrs. Williams, y Bryn. Terfynwyd y wledd drwy gynnal cyngerdd li-fyfyr.—Mae Dydd Calan yn un o ddyddiau mawr y Graig, ac eleni rhoddwyd y wledd de i'r Ysgol Sul a'r gynulleidfa gan Mrs. Jones, Parc-y-bedw. Y mae teulu Cilgwyn Bach erioed wedi bod a'u hysgwyddau o dan y baich ac eleni eto yr oedd Mrs. Jones yn groeso i gyd. Dan ofal Mr. Edward Davies, cyflwynwyd anrhegion i'r plant am gadw'r ysgol a chyflwynwyd teganau oddi ar y goeden gan Mr. Tweli Davies, y Fedwen. Cafwyd eitemau gan y plant a diolchwyd i bawb a fu'n cynorthwyo gan Mr. Edward Davies. Cynhaliodd Cwmni Drama'r Graig ei gŵyl flynyddol ar Ionawr 9 yn Neuadd Tysul. Y tro hwn llwyfanwyd tair drrma fer, "Y Feddygyniaeth" gan y plant a "Bacws" a "Rhwng Tê a Swper" gan y bobl itainc. Methodd Mrs. Hawys Park Davies a bod yn y gadair a gwnaethpwyd y gwaith yn ei lle gan Mr. Jenkyn Morgan.—Ar wahoddiad Urdd y Benywod cafwyd perfformiad arbennig o "Basiant Hanes" plant y Bwlch yn Neuadd Pantydefaid. Clod i Miss Ellen Thomas am ei gwaith da.

NADOLIG RHYDYGWIN.—Nos Iau, Ionawr 7 daeth plant ac oedolion Rhydygwin ynghyd i'r festri i'r wledd dê a'r Goeden Nadolig. Mwynhaodd pawb y te rhagorol fel arfer ac ar ôl hynny aethpwyd ati i ddosbarthu'r anrhegion. Yr oedd Santa Clôs wedi cyrraedd erbyn hyn a hynny ym mherson Mr. John Griffiths, Tŷ'r Capel. Rhannwyd nifer fawr o anrhegion ac ymddangosai pawb yn fodlon. Yr Ysgol Sul oedd yn gyfrifol am y draul o anrhegu'r ffyddloniaid a da clywed fod rhai wedi cadw'r ysgol yn ddi-fwlch bron. Arweiniwyd y cyngerdd a ddilynodd gan Mr. Davies, Penbryn Mawr, a chyn terfynu rhoes Mrs. Davies, Penbryn Mawr aurafal i bob plentyn. Llanwyd y lle a hwyl a llawenydd a chyflwynodd y gweinidog y diolchiadau, a dywedwyd geiriau calonogol gan Mrs. Davies, Caerwilym.

HIGHLAND PLACE, ABERDÂR.—Cafwyd gŵyl de a Choeden Nadolig yr Ysgol Sul ar nos Iau cyntaf y flwyddyn a daeth tyrfa o blant a rhieni ynghyd. Rhoddwyd coeden hardd at y gwaith gan Mr. a Mrs. Prince, ac fe anrhegwyd y plant â llyfrau a loshin. Y mae trigain o blant ar lyfrau'r ysgol erbyn hyn a nifer ohonynt wedi cadw'r flwyddyn yn ddi-fwlch.

CWRDD CYMDEITHAS YR YSGOL SUL.—Cynhaliwyd y cwrdd yma o adran De-Ddwyrain Morgannwg ar Ionawr 16 ac fe gafwyd ail-gychwyn llewyrchus ar y gwaith. Trefnwyd Cymanfa Ganu ar gyfer Dydd

Mawrth y Llungwyn. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o gael cynrychiolaeth dda i gyfarfod â'r Parch. Dudley Richiards, B.A., B.D., trefnydd Ysgolion Sul y Gymdeithas. Bydd Mr. Richiards yn arwain cwrdd ar y 13 o Chwefror yng Nghapel Abertawe am hanner awr wedi dau, a bydd yn cwrdd a'r Bobl Ifainc yn ddiweddarach yn y prynhawn.

"YR YMOFYNNYDD"—Daeth dau gyfraniad i law yn ystod y mis, eiddo Capel Bwlch y Fadfa, £3/3/0 a Urdd y Benywod, Gellionnen a'r Graig, £1/1/0. Clywaf fod eraill ar y ffordd a diolchaf am ffrwd gyson eich cyfraniadau.—Gwelir nifer fawr o ' newyddion ' a ' marwgofion ' yn y rhifyn hwn, a rhag i neb gredu i'r Golygydd eu cadw rhaid pwysleisio iddynt gyrraedd yn rhy ddiweddar ar gyfer rhifyn Ionawr. Ofer danfon dim ar ôl y Nadolig ar gyfer y rhifyn hwnnw, oblegid fe'i paratoir yn ddieithriad cyn y gwyliau.

LLWYNRHYDOWEN.—Cafwyd te a chyngerdd yn Llwynrhydowen Nos Wener, Ionawr 8, i groesawu James G. Jones, Heulwen yn ôl o'r Aifft. Daeth cynulliad da ynghyd a mwynhawyd noson ddedwydd iawn.

COLLI CERDDOR.—Blin gennym glywed am farw Mr. Tom Davies, Dewi Villa, gŵr a fu'n flaenllaw gyda'r Gymanfa am flynyddoedd maith. Dyn tawel, di-rodres oedd Mr. Davies, ond mewn pobl tebyg iddo y mae cadernid ein mudiad. "Nid marw'r gân !"

CAERFYRDDIN.—Tra bydd y capel yn nwylo'r adeiladwyr cynhelir y gwasanaethau yn Ystafell Gyfarfod y Coleg. Yn ychwanegol at yr adgyweiriadau allanol a mewnol ymddengys yn awr y bydd yn rhaid rhoi tô newydd ar y capel—baich trwm ar ' braidd bychan.' Ar Ragfyr 21 bu yma barti Nadolig. Gofalodd Mrs. Jenkins, Blaenwaun Ganol fod gyda ni Goeden Nadolig, a gofalodd ieuenctid y gynulleidfa am addurniadau'r Goeden. I'r plant a fu'n mynychu'r gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yr oedd anrhegion, a chynghorwyd hwy gan Mr. E. Lloyd Davies (o Gapel y Groes) a gymrodd ran Santa Clôs. Yn y cyfarfod cafwyd detholion ar y piano gan Madame Gorska (o Academi Cerdd Rhufain) a Miss Averil Evans ar y ffidl. Bu hwyl ar ganu carolau. Llywyddwyd gan Mr. Watcyn Davies, myfyriwr.—Ionor 8, trefnwyd Gyrfa Chwist yn y Y.M.C.A. Aeth rhai o'n pobl ni a'u cyfeillion i Yrfa Chwist yng Nghapel y Groes, ac yn awr fe dalodd pobl Capel y Groes y pwyth yn ôl yn odidog ar noson pan oedd y gwynt yn chwythu'n llym a'r rhew ar y priffyrdd. Diolchir iddynt am eu presenoldeb, a haeddant bob un o'r gwobrwyon a ddaeth iddynt. Yr oedd y trefniadau yng ngofal ieuenctid y gynulleidfa. Diolchir iddynt ac i bawb am eu rhoddion.—Ionor 12, daeth cynulliad gweddol ynghyd i Sosial y Flwyddyn Newydd, ar waethaf y cawodydd trymion. Huliwyd y byrddau â danteithion, a threfnwyd y rhaglen gan Miss S. O. Davies.—Ionor 29, cynhaliwyd *Jumble Sale* ar gyfer y drysorfa adeiladu. Diolchir i garedigion yr achos, o bell ac agos, am eu cymorth a'u cyfraniadau.

---

*J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Argraffwyr, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.*